MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 56
Chwefror 2012

CYNNWYS

O Mantell	2
Canolfan Gwirfoddoli	3
Cynllun Ffrindia'	4
Cymunedau Mentrus	5
Plant a Phobl Ifanc	6
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	7
Newyddion	8
Cyfleoedd Ariannu	9
Y Porth Ymgysylltu	
Digwyddiadau a Hyfforddiant	10

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

ERDF
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Europe & Wales: Investing in your Future

www.mantellgwynedd.com

Erbyn i'r rhifyn hwn o Mantell eich cyrraedd bydd y wefan newydd yn fyw! Ewch draw i www.mantellgwynedd.com i gael golwg arni. Mae arni wybodaeth am waith Mantell Gwynedd, y gwasanaethau a gynigir, newyddion, taflenni Cyngor a Gwybodaeth, manylion am wirfoddoli a llu o bethau defnyddiol eraill.

Mae'r wefan ar ei newydd wedd yn cynnwys bas data cynhwysfawr o fudiadau'r trydydd sector yng Ngwynedd. Rydym yn falch iawn o'r datblygiad newydd yma sydd nawr ar gael i'n haelodau ffyddlon.
Croesewir unrhyw sylwadau am y wefan newydd – anfonwch eich sylwadau at: **ymholiadau@mantellgwynedd.com**

Swyddfa Gofrestredig: 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, LL55 1AB. Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • **Gwefan:** www.mantellgwynedd.com
Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd.
Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

STAFF MANTELL GWYNEDD

Prif Swyddog:
Bethan Russell Williams

Tîm Datblygu a Gwasanaethau
Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:
Delyth Vaughan
Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol:
Medwyn Williams
Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:
Carwyn Humphreys
Prosiect Busnes yn Cefnogi Cymunedau
Swyddog Busnes yn Cefnogi Cymunedau:
Emily Williamson
Swyddog Gweinyddol Busnes yn Cefnogi Cymunedau:
Kathryn Dutton
Tîm Iechyd
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym:
Sioned Llwyd Larsen
Rheolydd Prosiect Ffrindia':
Carys Williams
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Arfon:
Nia Haf Jones
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Dwyfor:
Dawn Thomas
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Meirionnydd:
Gwenlli Haf Evans
Tîm Cyllid a Gweinyddol
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:
Ceren Williams
Swyddog Gweinyddol:
Bronwen Rowlands
Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Tracy Lynne Rotheram
Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Ellen ap Dafydd
Derbynnydd:
Tayera Khan
Tîm Canolfan Wirfoddoli
Cydlynydd Gwirfoddoli:
Rhianon Jones
Swyddog Gwirfoddoli:
Ann Angharad Fleming
Swyddog Gwirfoddoli:
Iola Till
Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:
Mirain Roberts
Swyddog Y Porth Ymgysylltu:
Betsan Ifan

Nodyn gan y Prif Swyddog

Dydd Mawrth, Chwefror 7fed, 'roeddwn yn swyddfeydd CGGC yn Y Rhyl yn lansiad Cronfa Buddsoddi Cymunedol. Cronfa yw hon fydd yn anelu at ddatblygu economïau lleol trwy fuddsoddi a chreu mentrau. Y bwriad yw cynnig cyllid nad yw ar gael yn fasnachol er mwyn hybu'r trydydd sector i dyfu a datblygu. Pres o gyfeiriad Ewrop yw hwn wedi ei gyfuno gyda phres o Lywodraeth Cymru. Mae'r gronfa yn werth £6m i'r trydydd sector. Bwriedir buddsoddi £4m ohono mewn mudiadau sy'n bwriadu cyflenwi contractau gwasanaethau cyhoeddus. Bydd symiau hyd at uchafswm o £250,000 ar gael o'r gronfa hon. Ond nid cronfa grant mohoni - cyllid benthyciad yw'r gronfa hon yn bennaf, er y bydd grantiau bychain ar gael er mwyn cefnogi gwaith i roi cynllun busnes at ei gilydd. Bydd yna gyfradd llog canrannol blynyddol o 6%.
Mae'r gronfa yma, unwaith eto, yn adlewyrchu'r symud i ffwrdd o gronfeydd grantiau traddodiadol. 'Rwyf wedi sôn am hyn lawer gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf trwy gyfrwng Pwt y Prif Swyddog. Mae llawer o'r cronfeydd grant traddodiadol bellach yn gofyn i fudiadau dendro i ddarparu gwasanaethau a dyma ni eto, trwy'r Cronfa Buddsoddi Cymunedol, enghraifft arall o symud i ffwrdd o'r hen gyfundrefn o roi arian ar blât i fudiadau. Mae pwyslais mawr bellach ar greu incwm a disgwylir i fudiadau, ble bo'n bosib, edrych ar greu incwm er mwyn cynaladwyedd. 'Rydym wedi gweld llawer o fudiadau yng Ngwynedd yn gwneud hyn ers blynyddoedd, wedi troi mudiad yn fenter. Dyma hanes Antur Waunfawr a Menter Fachwen, Seren, ac eraill. Erbyn hyn dyma sut mae Pwll Nofio Harlech dal ar agor.
Bellach mae gennym Swyddog Mentrau Cymdeithasol yn Mantell Gwynedd fel rhan o'n prosiect Cymunedau Mentrus. Mae Medwyn Williams yn gweithio hefo mudiadau sydd am fentro i'r byd masnachu. Yn lle cynnal Ffair Ariannu fel rhan o'n cyfarfod Blynyddol llynedd bu i ni gynnal Ffair Fasnachu a gwelwyd yno nifer o fudiadau trydydd sector yn gwerthu nwyddau. 'Roedd yna dipyn o gynrychiolwyr o fudiadau yn cerdded o gwmpas y ffair ac maent bellach mewn trafodaethau hefo Medwyn i edrych ar ffyrdd o fasnachu. Mi all Mantell Gwynedd eich helpu i ganfod arian i symud y syniad yn realiti. Wrth i gronfeydd grant traddodiadol ddiflannu dyma fydd angen i bob mudiad wneud - edrych ar ffyrdd newydd o weithio.
Erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi ymateb i'r agenda newydd o allanoli gwasanaethau cyhoeddus ac wedi penderfynu buddsoddi mewn Pencampwr Mentrau Cymdeithasol. Bydd y swydd hon yn cael ei hysbysebu yn ystod yr wythnosau nesaf, a dyma gam positif arall tuag at arfogi'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r cyfleoedd newydd mewn cyfnod newydd. Mae yma hefyd neges bwysig fod yr Awdurdod Lleol yn cymryd y mater o allanoli gwasanaethau o ddifri' a bydd angen i'r trydydd sector gydweithio ac ymateb mewn ffyrdd creadigol er mwyn goroesi.

Tan Tro Nesa' ***Bethan***

DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF O MANTELL
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw
Ebrill 13, 2012
Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost:
ellenapdafydd@mantellgwynedd.com Ffôn **01341 422 575**

WYTHNOS Y GWIRFODDOLWYR

Mae Wythnos y Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr a gwirfoddoli sy'n cael ei gynnal rhwng **1af** a **7fed Mehefin** bob blwyddyn. Prif nodau'r Wythnos yw cydnabod, gwobrwyo a recriwtio gwirfoddolwyr. Bydd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn trefnu nifer o weithgareddau i ddathlu'r wythnos – manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

Cystadleuaeth Tynnu Lluniau

CYFLE I ENNILL HAMPER

Eleni eto, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn gwahodd unigolion a / neu fudiadau i anfon llun sydd yn cyfleu GWIRFODDOLI yng Ngwynedd. Rydyn ni'n chwilio am luniau o bobl yn gwirfoddoli, gallant fod o unrhyw oed, yn gwneud unrhyw weithgaredd. Bydd detholiad o'r lluniau yn cael eu harddangos yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr 2011.

Gall unrhyw un, o unrhyw oed, gystadlu, ond mae'n rhaid

- i'r ffotograffydd gael caniatâd y rhai fydd yn y llun cyn ei anfon atom
- anfon 'ffurflen cystadlu' (ar gael o'r Ganolfan Wirfoddoli) gyda phob llun.

Canllawiau llawn ar gael o'r swyddfa - cysylltwch â'r **Ganolfan Wirfoddoli 01286 672626**, neu gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

Dyma'r llun buddugol y llynedd a dynnwyd gan Mr Tony Baker o Gymdeithas Rheilffordd Eryri.

AWGRYMIADAU

Mae croeso i chi gysylltu a Chanolfan Wirfoddoli Gwynedd os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau hyfforddiant ar gyfer y dyfodol trwy ffonio **01286 672 626** neu **01341 422 575**.

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2012

Galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr arbennig!
Oes yna unigolyn ysbrydoledig yn eich cymuned? Neu grŵp o bobl sy'n gweithio'n galed i helpu eraill ac sy'n rhoi'n hael o'u hamser i wella bywyd pobl eraill?

Os felly - dyma eich cyfle chi i'w henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2012!

Mae dewis o bum categori sef:-

- person ifanc dan 25,
- oedolyn (25 oed i fyny)
- gwirfoddolwr gwyrdd
- ymddiriedolwr
- grŵp gwirfoddol (sy'n cynnwys o leiaf 2 berson)

Y llynedd, derbyniwyd 230 o enwebiadau drwy Gymru, a naw ohonynt o Wynedd - un person ifanc, pum oedolyn, un ymddiriedolwr a dau Grŵp.

Yn flynyddol, bydd pawb a enwebir o Wynedd yn cael gwahoddiad i ddod i'r "Te Dathlu a Diolch" a gynhelir yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr 2012 pan gant eu cyflwyno gyda'u tystysgrifau. Felly ……meddyliwch am ychydig, ond peidiwch ag oedi oherwydd rhaid i'r enwebiadau gyrraedd CGGC, Caerdydd erbyn 13eg Ebrill 2012.

Am ragor o fanylion a/neu ffurflenni enwebu cysylltwch â **Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd: 01286 672626, gwirfoddoli@mantellgwynedd.com** neu **www.cggc.org.uk**

CYNLLUN FFRINDIA'

Yn rhifyn Gorffennaf 2011 fe gyhoeddwyd fod Mantell Gwynedd mewn partneriaeth gyda Age Cymru Gwynedd a Môn a Chynnal Gofalwyr wedi bod yn llwyddiannus gydau cais i'r Loteri Fawr. Roedd hyn yn ymateb i redeg cynllun peilot cyfeillio llwyddiannus ym Meirionnydd a gwnaethpwyd y cais i ehangu'r cynllun i Wynedd gyfan.

Ers Ionawr 2012 mae Rheolwr Prosiect a thair Cydlynwyr Gwirfoddolwyr wedi eu hapwyntio ar gwaith sefydlu wedi cychwyn. Nod ac amcan y cynllun yw hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr fydd yn cynnig gwasanaeth cyfeillio a chyfeirio at unigolion yn y grŵp target, sef unigolion dros 50 oed sydd yn dioddef o iselder, yn ofalwyr, yn gaeth yn y cartref neu wedi eu hynysu yn y gymuned ac angen cefnogaeth emosiynol i ailafael yn eu bywydau.

Y pedair sydd wedi eu penodi yw, Rheolwr Prosiect - **Carys Williams**, sydd wedi bod yn gweithio yn Mantell Gwynedd ers 2003. Y Cydlynwyr Gwirfoddolwyr fydd, **Nia Haf Jones** yn Arfon, **Dawn Thomas** yn Nwyfor a **Gwenlli Haf Evans** ym Meirionnydd. Dros y misoedd nesaf bydd y cydlynwyr yn recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr gyda lansiad swyddogol y cynllun ym mis Mai 2012 ac yn derbyn cyfeiriadau buddiolwyr ar gyfer y cynllun o'r dyddiad hynny ymlaen.

Gallwch gysylltu gyda Nia a Dawn yn swyddfa Age Cymru yng Nghaernarfon ar **01286 677711** neu e-bost **niahaf@mantellgwynedd.com** a **dawn@mantellgwynedd.com**. Bydd Gwenlli yn rhannu ei hamser rhwng swyddfa Mantell Gwynedd yn Nolgellau, rhif ffôn **01341 422575** ac yn swyddfa Cynnal Gofalwyr ym Mhenrhyndeudraeth, rhif ffôn **01766 772956** , e-bost **gwenlli@mantellgwynedd.com**.

'GAIR I GLUST' GOGLEDD CYMRU YN CHWILIO AM WIRFODDOLWYR

Fedrwch chi sbario 2 awr y mis i helpu i gynnal bore coffi ar gyfer pobl sydd yn drwm eu clyw yn eich ardal chi?

Mae Gweithredu dros Glyw yn chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo efo grwpiau newydd. Os dach chi'n teimlo y gallwch gynorthwyo efo hyn neu efo ddiddordeb ymuno â grŵp a wnewch chi gysylltu â Stephanie Johnson ar **01248 614437**
07435971934 neu **stephanie.johnson@hearingloss.org.uk**

NEWYDDLEN MANTELL AR DÂP

Mae Newyddlen Mantell ar gael ar dâp trwy Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru:
01248 353 604
ac hefyd
Papur Llafar y Deillion: Dolgellau:
01341 422 697

Cymunedau Mentrus Enterprising Communities

Growing Local Social Enterprise

Beth yw Cymunedau Mentrus?

Prosiect yw Cymunedau Mentrus a fydd yn darparu cymorth ymarferol i fudiadau Trydydd sector i helpu i symud tuag at ddod yn fwy cynaliadwy, creu incwm newydd a gwneud cais llwyddiannus i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Caiff y prosiect ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfeydd Strwythurol Ewrop (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop), ei reoli gan CGGC a'i gyflwyno gan rwydwaith Cymru o Gynghorau Gwirfoddol Sirol.

Ydy'ch grŵp angen cymorth gydag ariannu a chynhyrchu incwm?

- Oes gennych chi syniad ar gyfer menter neu fusnes?
- Ydych yn ei chael yn anodd o ddod o hyd i arian neu incwm?
- Darganfod hi'n anodd cael arian i dalu am ddigwyddiadau, gwasanaethau neu gostau gwirfoddolwyr?
- Neu oes gennych syniad sut i gynhyrchu incwm ar gyfer eich grŵp?

Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i fynd i'r afael â materion ariannu ac incwm, i ddod yn fwy cynaliadwy ac yn darparu cymorth a chyngor yn ymwneud â materion megis:

- Arfer da a gwell ffyrdd o weithio
- Sut i gefnogi staff a gwirfoddolwyr
- Strwythurau cyfreithiol gwahanol
- Rheolaeth ariannol

Medwyn Williams, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol.
Rhif Ffôn: **01286 672626**
e-bost: **medwyn@mantellgwynedd.com**

FFORWM NEUADDAU CYMUNEDOL

21ain Mawrth 2012
6.30 y.h. – 8.30 y.h
Neuadd Llanystumdwy
Materion i'w trafod:
Lleihau defnydd Ynni Mewn Neuaddau Cymunedol – canlyniad arolwg Ynni Neuaddau Gwynedd 2012
Edrychwn ymlaen at eich croesawu ar y noson
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Mantell Gwynedd ar **01286 672626**

GWEITHDY - GWNEUD I ASEDAU WEITHIO

Gyda Joyce Borgs, CGGC
22ain Mawrth 2012
Galeri, Doc Fictoria, Caernarfon
Bwriad y gweithdy yw rhoi golwg i gyfranogwyr ar ddatblygu asedau, o nodi'r ased, i fanteisio i'r eithaf ar ei incwm posibl
Pris £20 Aelodau Mantell Gwynedd
£40 Sector Breifat a Chyhoeddus
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Ellen ap Dafydd
Swyddfa Mantell Gwynedd Dolgellau
01341 422575
e-bost - d**olgellau@mantellgwynedd.com**

CYMUNEDAU MENTRUS – CYMORTHFEYDD CYNGOR Â GWYBODAETH

gyda
Delyth Vaughan – Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau – Mantell Gwynedd a
Medwyn Williams – Swyddog Cymunedau Mentrus – Mantell Gwynedd

14/03/2012	Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon	4 y.h. – 7 y.h.
19/03/2012	Tŷ'r Crynwyr, Bangor	3 y.h. – 6.30 y.h.
29/03/2012	Clwb Rygbi Dolgellau	4 y.h. – 7 y.h.

Angen Cyngor neu wybodaeth ychwanegol am brosiect Cymunedau Mentrus, sefydlu Menter Gymdeithasol neu gyfleoedd datblygu ac ariannu? Dewch draw am sgwrs
Ffoniwch Ellen ap Dafydd ar 01341 422575 i wneud apwyntiad

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Llwyddiannau

Llwyddiannau gwirfoddolwr ifanc o Wynedd ar gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.
Lowri Puw - tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Pasiant Porthmadog.
Llio Ann Harman - tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda St John Cymru.
Llinos Heledd Roberts - tystysgrifau 50 a 100 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Ysgol Dyffryn Nantlle.
Iona Williams - tystysgrif 50awr a 100awr o wirfoddoli gyda Siop Ambiwlans Awyr Cymru.
Sophie Owen - tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Clwb Ieuenctid Maesgeirchen, Grŵp Drama Tŷ Cegin.
David Lee – tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Clwb Ieuenctid Maesgeirchen.
Ben Wright - tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Clwb Ieuenctid Maesgeirchen.

Da iawn chi!

jiwsi

mencap cymru
Llais anabledd dysgu
The voice of learning disability

Sesiwn gwybodaeth a chyngor am ryw, rhywioldeb a pherthynas

Mae Mencap Cymru yn cynnal sesiwn gwybodaeth a chyngor am ryw, rhywioldeb a pherthynas yn rhad ag am ddim ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau dysgu rhwng 16-25, rhieni, gofalwyr a phobl broffesiynol sydd â diddordeb.
Cynhelir y digwyddiad yn yr **Interchange**, **Hen Golwyn** o 9yb i 12yh **ddydd Gwener 2il Mawrth**.
Bydd y siaradwr gwadd Fiona Spiers (ymgynghorydd a gweithiwr proffesiynol yn y maes addysg arbennig) yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr, pobl broffesiynol, Cymorth i Ferched, Prosiect Jiwsi yn ogystal â phobl ifanc ag anableddau.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **Carwyn** ym Mantell Gwynedd.

Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Rhwydwaith ar Ddydd Mercher, Mawrth 14eg. Bydd Huw Maguire, Pennaeth y Gangen Cymorth i Deuluoedd, Llywodraeth Cymru, yn ymuno â ni ynghyd â chyflwyniad gan Sophie Evans o gwmni Capita i drafod datblygiad y cynllun comisiynu Cefnogi Teuluoedd a Rhiantu arfaethedig. Bydd yn gyfle da i chi fel mudiadau yn y maes gwaith y trydydd Sector gwestiynu unrhyw faterion sydd yn ymwneud â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r cynllun comisiynu fydd yn weithredol o Ebrill 2013.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **Carwyn Humphreys** ar **01286 671626** neu **carwyn@mantellgwynedd.com**

Cyfieithu Cymunedol

cyfieithu ysgrifenedig • cyfieithu ar y pryd • prawfddarllen a golygu • cyrsiau cyfieithu • sesiynau gloywi iaith • Prisiau arbennig i gyrff cymunedol ac elusennol
www.cyfieithucymunedol.org
post@cyfieithucymunedol.org
01492 642 796

Copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan
Mantell Gwynedd -
www.mantellgwynedd.com

Adborth Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Crynodeb gan Mr Alwyn Rowlands (Cynrychiolydd 3ydd sector)

Dyma'r prif negeseuon a godwyd mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr yr 16eg 2012 yn Hen Golwyn:

- Mwy o ganolbwyntio ar ganlyniadau iechyd cyhoeddus – pobl yn fwy cyfrifol am eu hiechyd eu hunain
- Amrywiaeth yn lefelau ac ansawdd gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd
- Nid yw pob gwasanaeth yn bodloni safonau ansawdd
- Gall cynaladwyedd gwasanaethau presennol a'r pwysau a roddir ar staff a sustemau diogelwch cleifion gyfaddawdu iechyd cleifion
- Diffyg hyblygrwydd yn y sustem i ymdopi ag amrywiadau yn y galw neu absenoldeb staff sydd heb eu rhagweld.

Nodwyd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo ar draws nifer o wasanaethau penodol a byrddau prosiect wedi eu sefydlu gydag argymhellion yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr erbyn Mis Hydref 2012. Rhoddwyd hefyd eglurhad yn y cyfarfod ar y rhesymeg tros symud/cau gwasanaethau hyd at Fis Mawrth 2012. Rhoddwyd sicrhad pendant mai trefniant tros dro yn unig oedd hyn er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon a saff yn ystod misoedd y gaeaf.

Yng nghyd-destun y Mesur Iechyd Meddwl 2010, cafwyd amlinelliad o amserlen ar gyfer paratoi gwasanaethau yn 2012 . Os dymunwch ragor o wybodaeth cysylltwch â Sioned Larsen er mwyn cael yr adroddiad llawn, sioned@mantellgwynedd.com

Cynhelir y **cyfarfod nesaf** o'r Grŵp ar **19 Mawrth 2012.**

GWASANAETH Y GYMDEITHAS ALZHEIMERS YN Y BALA

Bydd Yvonne Owen, Gweithiwr Cefnogi Dementia o'r Gymdeithas Alzheimers, yn Stryd Fawr y Bala (drws nesaf i'r Fferyllfa) ar y dyddiadau canlynol Chwefror 29, Mawrth 14 a 28 rhwng 10:30 y bore a 3:00 y prynhawn. Croeso i chi alw draw am baned a sgwrs. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Yvonne Owen ar **01248 671137** neu **yvonne.owen@alzheimers.org.uk**

LANSIO MENTER "AGOR AELWYD" GAN CROESFFYRDD YN NEFYN

Beth yw cynllun 'Agor Aelwyd'?

Bydd un o'r gweithwyr cymorth i ofalwyr profiadol yn Croesffyrdd, Juliet, yn rhannu ei chartref am ddiwrnod (rhwng 10 a 3) yr wythnos gyda hyd at 4 o bobl sydd efo dementia. Bydd y Grŵp yn cyfarfod unwaith yr wythnos drwy'r flwyddyn gron. Bydd y diwrnod yn cynnwys cludiant, pryd bwyd a gweithgareddau, fel bod y gofalwr yn gallu cael y budd mwyaf o'r egwyl.

Bydd Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru'n ariannu'r grŵp am 2 flynedd (hyd Mawrth 2014) felly mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r cwsmer. Bydd rhywfaint o godi arian yn digwydd i dalu am offer y gweithgareddau a'r crefftau, a bydd croeso i wirfoddolwyr fyddai'n hoffi helpu.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun cysylltwch â Phrif Swyddfa Croesffyrdd Gogledd Cymru ar **01492-516435** neu e-bostio **northwales@nwcrossroads.org.uk**

DIGWYDDIAD RHWYDWAITH IECHYD GOFAL A LLES

Cynhelir y digwyddiad nesaf ar Ddydd Gwener, Mawrth y 9fed yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog am 10 y bore – bydd prif ffocws y bore ar gomisiynu gwasanaethau. Am fwy o wybodaeth neu i archebu eich lle cysylltwch â **Sioned** ar **01286 672626** neu **sioned@mantellgwynedd.com**

Busnesau yn Cefnogi Cymunedau
Business Supporting Communities

Mae prosiect newydd cyffrous ar droed yng Ngwynedd sef Busnesau yn Cefnogi Cymunedau gyda'r bwriad o weithio gyda Busnesau lleol i rannu eu gwybodaeth, arbenigedd, offer ac unrhyw beth arall y maent yn barod i rannu neu ei roi i grwpiau cymunedol lleol.

A ydych yn grŵp cymunedol lleol ac yn chwilio am gymorth? Fel dewis amgen i wneud cais am gyllid a grantiau beth am ofyn i ni os y gallwn helpu trwy annog busnesau lleol i gefnogi chi.
Os hoffech chi fanteisio ar yr arbenigedd gan gyfrifydd, plymwr, ymgynghorydd marchnata, dylunydd gwe neu unrhyw un neu unrhyw beth arall y dymunwch gyngor, os ydych chi angen unrhyw offer, neu os hoffech i fynd ar leoliad gwaith neu y byddent hoffech fod yn rhan o ddigwyddiadau i rannu gwybodaeth yna gofynnwch ac fe wnawn ein gorau i geisio eich paru â busnesau yn lleol.

Cerdyn Cymunedol
Byddwn yn lansio'r cerdyn Cymunedol yn gynnar yn 2012, bydd holl aelodau Mantell Gwynedd fod yn gymwys ar gyfer un o'r cardiau lle byddwch yn cael y cyfle i fanteisio ar ostyngiadau a gynigir gan fusnesau lleol.

Emily Williamson eich swyddog Busnes yn Cefnogi Cymunedau

Kathryn Dutton Swyddog Gweinyddol Busnes yn Cefnogi Cymunedau

emily@b2cwales.co.uk 07912 062877
Mantell Gwynedd 01286 672626
www.b2cwales.co.uk www.mantellgwynedd.co.uk

Cynllun peilot ar gyfer datrys anghydfodau ar faterion treth

Mae Cyllid a Thollau EM yn treialu dull newydd o ddatrys anghydfodau TAW a threth uniongyrchol gyda busnesau bach a chanolig, gan gynnwys elusennau, er mwyn ceisio datrys unrhyw wrthdaro cyn iddynt gyrraedd tribiwnlys. Bydd y cynlluniau peilot yn cael eu treialu yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Gweler http://www.civilsociety.co.uk/finance/news/content/11287/ am ragor o fanylion

Wythnos Hinsawdd 2012

12 a 18 Mawrth 2012

Cynhelir Wythnos Hinsawdd 2012 rhwng 12 a 18 Mawrth 2012. Mae Wythnos Hinsawdd yn ymgyrch genedlaethol ar gyfer ysbrydoli gweithredoedd newydd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd yn dod i ben drwy gynnal miloedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod wythnos 12-18 Mawrth 2012, a fydd yn cael eu trefnu gan fudiadau o bob rhan o'r gymdeithas. Nod yr ymgyrch yw adnewyddu ein huchelgais i greu dyfodol mwy cynaliadwy, carbon isel drwy ddangos ffyrdd go iawn, ymarferol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Derbynnir ceisiadau ar gyfer Gwobrau Wythnos Hinsawdd nawr hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Wythnos Hinsawdd.

Cronfa Buddsoddi Cymunedol

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Bwriad y Gronfa yw cryfhau a datblygu grwpiau a mentrau o fewn y trydydd sector. Pwrpas hyn yw galluogi'r sector wirfoddol i allu chwarae rhan gyflawn o fewn cymunedau Gwynedd.
Gellir gwneud cais am hyd at £10,000 am arian cyfalaf neu refeniw.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Elin Morris**, **Cydlynydd Cyswllt Cymunedol** ar **0300 123 8084** neu **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**

YMDDIRIEDOLAETH TUDOR

Mae Ymddiriedolaeth Tudor yn rhannu grantiau i fudiadau gwirfoddol a chymunedol ar draws Prydain. Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am fwy o geisiadau o Gymru.
Am fwy o wybodaeth ewch i **www.tudortrust.org.uk**

Cronfa Treftadaeth y Loteri: newidiadau i raglenni grantiau bach

O fis Ebrill 2012, mae llawer o newidiadau i raglenni grant Cronfa Treftadaeth y Loteri yn arbennig rhaglenni 'Eich Treftadaeth' a 'Gwreiddiau Ifanc'.
Am ragor o wybodaeth am y newidiadau ewch i **www.hlf.org.uk**

Y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru

– grantiau i gefnogi'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr newydd ledled Cymru.

- A oes angen gwirfoddolwyr newydd ar eich elusen?
- A oes angen Cydlynydd Gwirfoddolwyr rhan amser arnoch?
- A oes angen i chi hyfforddi a thalu costau eich gwirfoddolwyr?

Os felly, gall y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru helpu.
Dyddiad cau'r rownd nesaf yw 23ain Mawrth 2012.
Am ragor o wybodaeth - cysylltwch â **WCVA** ar **08002888329, ww.wcva.org.uk**

Cronfa Datblygu Gwirfoddol Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu cronfa grantiau i grwpiau cymunedol a gwirfoddol yng Ngwynedd.
Mae modd gwneud cais am arian cyfalaf a refeniw o'r gronfa hon.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw Mawrth 31ain 2012 a Mehefin 30ain 2012.
Am becyn cais neu ragor o wybodaeth ewch i **www.gwynedd.gov.uk** neu cysylltwch â'r tîm **Swyddogion Adfywio Bro** neu **Swyddfa Cist Gwynedd** ar **01286 679153**

Y Porth Ymgysylltu

Yn dilyn y rownd olaf o grantiau cystadleuol mae pump o fudiadau o Wynedd wedi bod yn llwyddiannus sef: Moelyci, Cyngor ar Bopeth (2 grant), Busnes Eryri, Syrcas Circus a St. John's. Bydd y cytundebau yma yn dod i ben fis Mehefin 2012. Bellach mae 19 o fudiadau yn gweithio o dan y cynllun sydd wedi denu **£823,514.47** o arian Ewrop i Wynedd.
Er gwybodaeth, mae Carys Williams, Swyddog Y Porth Ymgysylltu wedi symud i gymryd cyfrifoldeb am gynllun newydd o fewn Mantell Gwynedd, sef Cynllun Loteri Ffrindia'. O hyn allan, Betsan Ifan, aelod o dîm asesu tendrau Y Porth Ymgysylltu gyda CGGC fydd yn cynnig cefnogaeth a chyngor i fudiadau sydd â chytundebau/grant yn weithredol yng Ngwynedd.
Bydd Betsan wedi'i lleoli yn swyddfa Mantell Gwynedd Caernarfon dridiau'r wythnos felly gellir cysylltu â hi trwy unai ffonio 01286 672 626 neu e-bostio **bethanifan@mantellgwynedd.com** Bydd Betsan hefyd, mewn cydweithrediad â Mark Gahan, Medrwn Môn yn parhau i drefnu cyfarfodydd o'r rhwydwaith a sefydlwyd ym Mhorthaethwy ym mis Tachwedd.

ESF

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Glynllifon ger Caernarfon

Mae Mantell Gwynedd wedi llogi gofod ar faes yr Eisteddfod ar gyfer mudiadau gwirfoddol y sir yn ystod yr wŷl fis Mehefin. Os hoffech chi rannu stondin gyda Mantell Gwynedd, dyma gyfle i ddatgan eich diddordeb! Cysylltwch â ni gyda manylion eich mudiad:

Enw /Mudiad/Cyfeiriad/ E-bost/ Ffôn

Cofiwch, y cyntaf i'r felin...

Anfonwch eich manylion yn ôl at:
Carwyn Humphreys neu Mirain Roberts,
E-bost: **carwynhumphreys@mantellgwynedd.com**
mirainroberts@mantellgwynedd.com
Ffôn: **01286 672626**

Sioe Amaethyddol Meironnydd

TYWYN, dydd Mercher – 22ain Awst

Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i chi - holl fudiadau gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaeth yn ardal Meirionnydd - i ymuno â Mantell Gwynedd yn eu pabell ar gae Sioe Sir Meirion eleni. Yn y gorffennol, mae pabell Mantell wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd ar ddiwrnod y sioe, gyda chroestoriad eang o fudiadau gwirfoddol yn rhannu y safle. Gofynnir am gyfraniad tuag at y costau, ond mae gweddill y trefnu i gyd yn cael ei wneud ganddom ni. Felly peidiwch â cholli cyfle - gallwn eich sicrhau o ddiwrnod prysur yng nghwmni ein gilydd - cyfle i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd, ac i rwydweithio â mudiadau eraill gyda phawb dan yr un to. Codwch y ffôn heddiw **01341 422575** er mwyn sicrhau eich lle.

HYFFORDDIANT MANTELL GWYNEDD

Dyddiad	*Teitl y Cwrs*	*Lleoliad*
28-02-2012	Cymorth Cyntaf Brys	Prenteg ger Porthmadog
15-03-2012	Diogelwch Bwyd Lefel 2	Tremadog
22-03-2012	Gwneud i Asedau Weithio	Caernarfon

I gofrestru neu cael rhagor o wybodaeth ewch i'r wefan **www.mantellgwynedd.com**

Os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â **Delyth Vaughan 01286 672626, delyth@mantellgwynedd.com**. Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd 01341 422575 EllenapDafydd@mantellgwynedd.com**

Hyfforddiant WCVA Gwanwyn a Haf 2012

Dyddiad	Lleoliad	Tiwtor
Cyflwyniad i godi arian drwy gymynroddion		
8 Mawrth 2012	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Eileen Kinsman
Gwerthuso a monitro allbynnau		
13 Mawrth 2012	Galeri, Caernarfon	Alain Thomas
Mesur canlyniadau meddal • NEWYDD •		
15 Mawrth 2012	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Bryan Collis / Angela Tilcock
Elfennau sylfaenol o reoli prosiect ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE • NEWYDD •		
20 Mawrth 2012	Galeri, Caernarfon	Emma Jones / Judith Stone / Matthew Brown
Cyflwyniad i adrodd straeon mewn sefydliadau		
19 Ebrill 2012	Plas Pentwyn, Wrecsam	Storyworks
Cymhorthfa Cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd – pum cam syml at ddefnyddio Cymorth Rhodd		
19 Ebrill 2012	Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth	Eileen Kinsman
Cymhorthfa Cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd – pum cam syml at ddefnyddio Cymorth Rhodd		
03 Mai 2012	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Eileen Kinsman
Cynllunio strategol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd • NEWYDD •		
17 Mai 2012	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Mandy Williams / Sarah Jones
Hyder mewn digwyddiadau cyhoeddus		
30 Mai 2012	WCVA, Aberystwyth	Mandy Williams

Gywbodaeth ar gael ar **www.wcva.org.uk**
Neu i wneud ymholiadau cyffredinol cysylltwch â **Lein Gymorth CGGC (WCVA)** ar **0800 2888329** neu **help@wcva.org.uk**

CODI PROFFIL EICH MUDIAD

Bore Mawrth, 6ed Mawrth 2012, yn Adeilad yr Institiwt, Caernarfon cynhelir bore o hyfforddiant dan arweiniad Bethan Jones Parry ar 'Sut mae bwrw ati i godi proffil eich mudiad a denu cyhoeddusrwydd"

Croeso i BAWB!

Os hoffech ragor o wybodaeth am y digwyddiad, cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd **01286 672626, gwirfoddoli@mantellgwynedd.com**